



**DYSGU OEDLION A DYSGU
GYDOL OES YNG NGHYMURU**

Medi 2020

CYFLWYNIAD

Wrth i Gymru geisio adennill ar ôl pandemig Covid-19, mae lefelau uwch o ddiweithdra a ddaeth yn sgil y dirywiad economaidd a achoswyd gan yr argyfwng yn golygu y bydd angen ailhyfforddi neu uwchsgilio nifer sylweddol o oedolion. Bydd hyn yn ychwanegol i ymdrechion cyfredol Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer yr oedolion sy'n weithgar yn economaidd i helpu cymunedau ledled Cymru i ffynnu unwaith eto. Heb os, bydd y Cymru a adeiladwn ar ôl Covid-19 yn economaidd wahanol i'r un cyn yr argyfwng ond mae gennym gyfleoedd i greu newid cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cadarnhaol. Bydd Dysgu Oedolion, gan gynnwys Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL), yn rhan hanfodol o hyn.

Mae cryn ymchwil ar waith sy'n dangos gwerth dysgu oedolion yng Nghymru, yn y gymuned ac yn y coleg, a'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae hyn yn ei wneud i fywydau pobl (ARAD, 2016¹; Estyn, 2016²). Mae dysgu gydol oes yn cefnogi datblygiad sgiliau, yn gwella iechyd a lles ac yn gatalydd ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol ac integreiddio. Mae ACL yn hanfodol ar gyfer yr unigolion hynny sydd

anoddaf eu cyrraedd, ac sydd bellaf i ffwrdd o addysg a chyflogaeth.

Rhoddwyd ffocws o'r newydd i ddysgu oedolion yng Nghymru pan wnaed cytundeb ffurfiol rhwng y Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r cytundeb yn tynnu sylw at yr angen i archwilio sut y gallwn ddarparu hawl Gymraeg newydd i ddysgu gydol oes, gan fuddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen ar bobl trwy gydol eu hoes, er budd unigol, cymdeithasol ac economaidd³. Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaeth y Gweinidog Addysg symud ymhellach ar ei hymrwymiad i ddysgu gydol oes gyda chyhoeddiad ailstrwythuro ACL yng Nghymru⁴.

Mae'r ffigurau isod yn dangos yr effeithiau niweidiol y mae toriadau cyllid rhwng 2013 a 2018 wedi'u cael ar nifer o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn dysgu oedolion ac yn y gymuned⁵.

YR EFFEITHIAU NIWEIDIOL Y MAE TORIADAU CYLLID WEDI'U CAEL AR NIFER O DDYSGWYR SY'N CYMRD RHAN MEWN DYSGU OEDOLION AC YN Y GYMUNED.⁵

Tabl 1

	2013/14	2017/18
Dysgwyr rhan amser Addysg Bellach oed 20+	88,655	46,585
Dysgwyr ACL oed 20+	26,695	11,945

Ffynhonnell: StatsCymru

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-o-ddysgu-oedolion-yn-y-gymuned-yng-nghymru.pdf>

² <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Adult%2520Community%2520Learning%2520in%2520Wales%2520cy.pdf>

³ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/FM%20Agreement%20with%20Kirsty%20Williams%20%28E%29.pdf>

⁴ <https://llyw.cymru/datganiad-ygrifenedig-ymateb-llywodraeth-cymru-ir-ymgyngoriad-ar-ad-drefnu-dysgu-oedolion-yn-y?>

⁵ [ga=2.245364611.709676388.1599131743-1245712430.1590052560](https://www.ucas.org.uk/article/7493/College-staff-to-stage-protests-over-50-funding-cuts-that-will-decimate-adult-education-in-Wales)

⁵ <https://www.ucas.org.uk/article/7493/College-staff-to-stage-protests-over-50-funding-cuts-that-will-decimate-adult-education-in-Wales>



NIFER Y DYSGWYR 25 OED A HÛN MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH (SAB), ACL A DYSGU SEILIEDIG AR WAITH (DSW) YNG NGHYMRU YN ÔL BLWYDDYN⁶

Tabl 2

2015/2016	85,740
2016/2017	90,295
2017/2018	86,155
2018/2019	91,505

Ffynhonnell: StatsCymru

Mae'r tabl uchod yn dangos nifer y dysgwyr 25 oed a hŷn mewn SAB, ACL a DSW yng Nghymru yn ôl blwyddyn, gan ddangos amrywiad ond cynnydd cyffredinol. Roedd cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n oedolion yn 2018/19, yn dilyn cwmp y flwyddyn flaenorol.

Mae gweithwyr mewn sectorau sydd wedi cael eu heffeithio mwyaf gan Covid-19, fel twristiaeth a lletygarwch, yn fwy tebygol o fod wedi cael eu diswyddo yn ystod yr argyfwng, ac felly maent yn debygol o fod yn chwilio am gyfleoedd

ailhyfforddi ac ailsgilio. Bydd darpariaeth ddysgu i oedolion effeithiol yn allweddol i gyflawni'r cyfleoedd hynny. Mae gan y sector Addysg Bellach ran sylweddol i'w chwarae i sicrhau bod cysylltiadau cadarn yn cael eu creu a'u datblygu gyda phawb a all elwa o'r cynnig dysgu i oedolion. Mae pandemig Covid-19 wedi ailgynnau pryderon ynghylch dyfodol cyllid a darpariaeth ACL. Felly, mae'n bwysig tynnu sylw at arwyddocâd y sector hwn wrth ddarparu sgiliau oedolion i gefnogi adferiad economaidd yn y cyfnod ôl-firws. Mae ACL yn cefnogi ystod eang o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol.

⁶ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Outcomes/Adult-Learning/successadultlearningactivities-by-age-year>

DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED (ACL)

Yn aml, nod y dysgwyr hyn yw cyflawni sgiliau Lefel Mynediad i Lefel 2, fel arfer sgiliau hanfodol fel rhifedd, llythrennedd a digidol, a sgiliau cyflogadwyedd. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y math hwn o addysg yn aml dan anfantais cymdeithasol ac economaidd fwy – wedi eu heffeithio gan dlodi, digartrefedd, afiechyd neu ddibyniaeth. Mae ACL hefyd yn cefnogi dysgwyr yn y Gwasanaeth Prawf a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau adsefydlu. Mae ACL hefyd yn cynnig ystod o gyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) sy'n wahanol i'r rhai a gynigir mewn lleoliad coleg, yn aml yn targedu dysgwyr mwy agored i niwed.

Mae 15 o bartneriaethau ACL ledled Cymru, pob un yn cynnwys darparwyr ACL (rhai mewn SAB), a'r bwriad yw sicrhau dull cydweithredol mewn ymateb i angen ACL ym mhob rhanbarth. Bu cwestiynau tegwch yn y gymuned dysgu oedolion, gan arwain at yr adolygiad a gyhoeddwyd yn 2016⁷, ac ailstrwythuro'r Grant Dysgu Cymunedol wedi hynny a fydd yn cael ei gyflwyno'n raddol dros bum mlynedd, o fis Ebrill 2020.

Daw'r berthynas agos â chymunedau y mae ACL yn ei mwynhau hefyd trwy ddarparu mynediad cyfartal i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, cefnogi mentrau iechyd a lles, a darparu cyfleoedd i bobl anabl neu'r rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Nod ACL yw darparu cydraddoldeb i bob cymuned a'u preswylwyr ledled Cymru. Her barhaus i ddysgu oedolion yng Nghymru yw cynnig cwricwlwm eang sy'n galluogi dysgwyr i gael mynediad i'w addysg trwy iaith eu dewis. Gyda bron i 600,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, mae'n hanfodol bod gan ddysgwyr

y dewis o iaith, a'u bod yn gallu cyrchu eu dysgu yn ddi-dor, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Mae'r holl ddarparwyr yn gweithio i gyflawni'r her hon, trwy drefniadau partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yr Urdd, a Dysgu Cymraeg.

Darperir ACL gan sefydliadau addysg bellach traddodiadol ac Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Mae argaeledd colegau addysg bellach i gefnogi addysg oedolion yn dibynnu ar y dyraniad cyllid rhan-amser gan Lywodraeth Cymru.

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn cyflwyno rhaglen genedlaethol o ddysgu oedolion mewn cymunedau a gweithleoedd ledled Cymru, ac mae ganddo dros 22,000 o gofrestrïadau bob blwyddyn. Eu nod yw darparu cynnig cwricwlwm na fyddai fel arall ar gael i fwyafrif y dysgwyr sy'n economaidd anactif ac anoddaf eu cyrraedd. Yn yr un modd, mae pob SAB yng Nghymru yn sicrhau darpariaeth dysgu i oedolion, naill ai mewn partneriaeth â'r gymuned, neu gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales.

Mae datblygu dysgu digidol ar-lein ymhellach yn gyfle enfawr i ACL gyrraedd hyd yn oed mwy o ddysgwyr. Mae angen adnoddau priodol ar y sector er mwyn blygu deunydd a darparu TG addas (ar gyfer myfyrwyr a staff) i alluogi hyn i ddigwydd. Mae tlodi digidol yn dal i fod yn fater enfawr sydd angen sylw.

⁷ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-o-ddysgu-oedolion-yn-y-gymuned-yng-nghymru.pdf>

DATBLYGIADAU POLISI A PHROSIECTAU PEILOT LLYWODRAETH CYMRU

Mae datganiad polisi Llywodraeth Cymru “Dysgu Oedolion yng Nghymru” (2017)⁸, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion, gyda'r nod allweddol o 'cynorthwyo oedolion i chwarae rôl amlwg yn yr economi a'r gymdeithas drwy wella eu cyfleoedd dysgu'. Mae'r datganiad yn tynnu sylw at doriadau cyllid y gorffennol i ddysgu oedolion a dysgu rhan amser, ac yn cydnabod natur bregus y sector i doriadau pellach- gan adleisio pryderon a godwyd gan ARAD ac Estyn.

Ym mis Awst 2018, arweiniodd gwendidau cyllido a diffyg eglurder ynghylch strategaeth bolisi ar gyfer darpariaeth ACL yng Nghymru yn y dyfodol at ymgynghoriad ar ddarpariaeth a strwythur dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru⁹. Bydd ailstrwythuro dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru yn helpu i sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn elwa o ddull cyd-gysylltiedig o ariannu a chynnig y cwricwlwm ar draws pob rhanbarth, cymuned a gweithle. Ar ôl ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad, gwnaeth y Gweinidog Addysg ddatganiad ym mis Gorffennaf 2019¹⁰ yn nodi'r dull ar gyfer ailstrwythuro dysgu oedolion yn y gymuned.

Bwriedir bod dau gam i'r ailstrwythuro, y cyntaf yw cyflwyno model cyllido diwygiedig. Bydd cam dau yn gweld ailstrwythuro ehangach y ddarpariaeth hon, trwy gyflwyno corff cenedlaethol erbyn 2024 i oruchwyllo holl ddysgu cymunedol oedolion yng Nghymru. Roedd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) arfaethedig i fod i gymryd cyfrifoldeb am ddysgu oedolion, er bod ei sefydliad wedi'i ohirio gan na ellir pasio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn ystod tymor cyfredol y Senedd. Unwaith y bydd Corff Cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion wedi'i sefydlu, bydd yn cael ei ariannu, ei fonitro, a sicrhau ansawdd gan y CADY yn unol â'r cynigion ar gyfer pob SAB arall. Nid yw'n glir eto sut mae Covid-19 wedi effeithio ar yr amserlen ar gyfer y newidiadau hyn.

Yn 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru ddau gynllun peilot, y ddau wedi'u hanelu at uwchsgilio dysgwyr sy'n oedolion, ac i gynnig llwybrau newydd i ailsgilio, hyfforddi a pharhad mewn addysg alwedigaethol.

- Cyfrifon Dysgu Personol¹¹
- Addysg Oedolion Hyblyg¹²

O ystyried yr amgylchiadau presennol, ni fu'r cynlluniau hyn erioed yn bwysicach. Mae'r Cyfrifon Dysgu Personol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dysgwyr sy'n cwrdd â'r meini prawf hanfodol, a hefyd y rhai sydd ar ffyrlo oherwydd Covid-19. Roedd y peilot gwreiddiol yn cynnig mynediad i astudio rhan-amser yng ngholegau gogledd a de Cymru, ond mae disgwyl i hyn gael ei ymestyn i bob coleg yng Nghymru, er bod manylion a chyllid blwyddyn lawn i'w cadarnhau o hyd.

Mae'r rhaglen Addysg Oedolion Hyblyg wedi bod yn llwyddiannus mewn colegau ledled Cymru wrth ymgysylltu ag oedolion sydd eisiau naill ai uwchsgilio neu sefydlu eu busnes eu hunain. Dewiswyd tri choleg i dreialu'r rhaglen, pob un wedi'i lleoli yn un o dair ardal y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP). Roedd anghenion pob rhanbarth, fel y nodwyd yng nghynlluniau'r RSP, yn bwynt cyfeirio allweddol ar gyfer prosiectau'r colegau; canolbwyntiodd Coleg Penybont ar y diwydiant cerbydau modur, teilwrodd Coleg Sir Gâr ei brosiect i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r rheini mewn ardaloedd gwledig i gael mynediad at hyfforddiant entrepreneuriaeth, a chysylltodd Coleg Cambria ei brosiect â sectorau bwysig sgiliau gweithgynhyrchu uwch a digidol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Er bod y ddarpariaeth gyfredol wedi bod wyneb yn wyneb, mae hyblygrwydd i'r cynllun gael ei gyflawni'n ddigidol. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio gyda cholegau sut i gynnig y rhaglen ar blatfform digidol yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae'r ddwy raglen yn enghraifft arall o'r sector addysg bellach yn cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau newydd i gwrdd â newidiadau technolegol a'r heriau a ddaw yn sgil Brexit.

⁸ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/dysgu-oedolion-yng-nghymru.pdf> p3

⁹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/cyflenwi-a-chyllido-addysg-oedolion-yn-y-gymuned-crynodeb-or-ymatebion.pdf>

¹⁰ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-lywodraeth-cymru-ir-ymgynghoriad-ar-ad-drefnu-dysgu-oedolion-yn-y-ga=2.176580837.1128176964.1598275436-991468843.1594652056>

¹¹ <https://cymrungeithio.llyw.cymru/cyfrif-dysgu-personol>

¹² <https://www.colegau.cymru/cy/blog/wall?N=147>

DYFODOL DYSGU OEDOLION A DYSGU GYDOL OES

Yng Nghymru, gwnaed yr ymrwymiad i wella datblygiad personol neu broffesiynol trwy hawl i ddysgu gydol oes yn un ffurfiol ym mis Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, ni fu llawer o eglurder eto ynghylch beth fydd yr hawl i ddysgu gydol oes a sut y gall fod yn ddiriaethol i ddysgwyr. Mae sefydliadau addysg ôl-16 yn gweithio gyda'i gilydd i drafod sut y dylid diffinio'r hawl. Waeth beth yw ei ddiffiniad, mae angen i'r 'hawl' i ddysgu gydol oes fod yn ystyrion ac yn rhywbeth y gall pawb sy'n ymwneud â'r sector dysgu gydol oes ei ddeall yn dda yn ogystal â dysgwyr yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Bydd angen buddsoddiad mawr mewn sgiliau oedolion a sgiliau sylfaenol yn yr economi ôl-Covid-19 yng Nghymru. Bydd angen i'r ddarpariaeth ar gyfer oedolion fod yn gyddwys i'w galluogi i ddychwelyd i'r gweithlu cyn gynted â phosibl. Mae'r cynnig addysg yn debygol o newid yn y dyfodol o ganlyniad i'r pandemig ac angen yr economi am sgiliau newydd. Mae buddsoddiad pellach mewn dieithrio digidol yn allweddol- mae angen i adnoddau fel gliniaduron fod ar gael yn rhwydd i baratoi ar gyfer newidiadau yn y ffordd y mae addysg yn cael ei darparu yn y dyfodol.

Casgliad

Rhaid i ddysgu ac ailsgilio oedolion, gan gynnwys y cyllid angenrheidiol, fod yn flaenoriaeth wrth i Gymru geisio mynd i'r afael â'r heriau yn deillio â Covid-19. Mae'r sector

Addysg Bellach yn allweddol i unrhyw ddarpariaeth effeithiol, fel y mae gweithio mewn partneriaeth gyda'r ystod o wasanaethau gwirfoddol a statudol. Dylai Llywodraeth Cymru geisio adeiladu ar lwyddiant peilotiaid fel y Cyfrifon Dysgu Personol ac Addysg Oedolion Hyblyg a sicrhau bod mynediad at ddysgu ar-lein a dysgu cyfunol ar gael i bawb. Er mwyn i'r rhaglenni hyn fod yn rhan annatod o'r cynnig i oedolion sy'n dysgu, dylai'r llywodraeth nodi'n glir y cynlluniau i ariannu darpariaeth a sicrhau bod gan y fenter amser i ymsefydlu a rhoi sicrwydd i ddysgwyr gael mynediad at y Cyfrifon Dysgu Personol yn y dyfodol.

Ni ddylid anghofio ACL ychwaith. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei hymrwymiad i ddatblygu hawl i Ddysgu Gydol Oes yn ogystal ag ailstrwythuro ACL yng Nghymru. Mae manteision economaidd, cymdeithasol a dinesig wrth ddatblygu diwylliant dysgu gydol oes yng Nghymru, a'r arloesedd sydd ei angen i'n cymunedau fod yn wydn, i'n heconomi addasu i amgylchiadau sy'n newid ac i'n democratiaeth ffynnu.



Ffôn

02920 522 500

Colegau Cymru

U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

E-bost

helo@colegaucymru.ac.uk

Gwefan

www.colegau.cymru